# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Teams**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Mawrth 2021

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@senedd.cymru

**(Ar 1 Mawrth 2021 derbyniodd y Pwyllgor gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod hwn.)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.30 - 09.45)

**2a Trefniadau ar gyfer Penodi Uwch Aelodau o Staff Dros Dro - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Llythyr gan y Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (26 Chwefror 2021)**

(Tudalennau 1 - 4)

**2b Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (1 Mawrth 2021)**

(Tudalennau 5 - 6)

**2c Maes Awyr Caerdydd: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (3 Mawrth 2021)**

(Tudalennau 7 - 12)

**2d Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (4 Mawrth 2021)**

(Tudalen 13)

**2e Myfyrdod ar y Pumed Cynulliad/y Pumed Senedd: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (8 Mawrth 2021)**

(Tudalennau 14 - 18)

**2f Addasiadau Tai: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (10 Mawrth 2021)**

(Tudalennau 19 - 20)

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru

(09.45 - 10.05) (Tudalennau 21 - 25)

PAC(5)-09-21 Papur 1 - Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (5 Mawrth 2021)

## 4 Adroddiad Etifeddiaeth: Trafod yr adroddiad drafft

(10.05 - 11.30) (Tudalennau 26 - 66)

PAC(5)-09-21 Papur 2 - Adroddiad Drafft

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Bloc 5, Llys Carlton, Parc Busnes Llanelwy,
Llanelwy, LL17 0JG
----------------------------------
Block 5, Carlton Court, St Asaph Business
Park, St Asaph, LL17 0JG

Mr Nick Ramsay, AS
Cadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Y Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

**Ein cyf / Our ref:** JW/LJ//DP/CE21-356/2816
**Eich cyf / Your ref:**
**☎:** 01745 448788 ext 6364
**Gofynnwch am / Ask for:** Di Platt
**E-bost / Email:** di.platt@wales.nhs.uk
**Dyddiad / Date:** 26 Chwefror 2021

Annwyl Mr Ramsay

**Parthed: Adroddiadau Archwiliwr Cyffredinol Cymru: Trefniadau ar gyfer Penodiadau Uwch Staff Dros Dro**

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 5 Chwefror 2021 ynghylch yr adroddiad uchod, a hefyd am eich croeso caredig a dymuniadau da. Yn dilyn eich cais, atodaf ymateb y Bwrdd Iechyd i ymholiadau'r Pwyllgor.

Mae croeso i chi gysylltu â mi pe bai arnoch angen mwy o wybodaeth.

Yn gywir

**Jo Whitehead PSM**
**Prif Weithredwr**
**Chief Executive**

**Cyfeiriad Gohebiaeth ar gyfer y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr / Correspondence address for Chairman and Chief Executive:**
Swyddfa'r Gweithredwyr / Executives' Office
Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd
Bangor, Gwynedd LL57 2PW
**Gwefan:** www.pbc.cymru.nhs.uk **/ Web:** www.bcu.wales.nhs.uk

**Ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i Ymholiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas ag Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**
***Trefniadau ar gyfer Penodi Uwch Aelodau o Staff Dros Dro - BIPBC***

## Cyflwyniad

Yn dilyn yr ymateb blaenorol i gais y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am wybodaeth ym mis Rhagfyr 2020, mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o roi rhagor o fanylion am rôl y cyn Gyfarwyddwr Adfer Dros Dro.

**Cwestiwn:** *O ran yr ymateb i drefniadau staff dros dro, byddwn yn croesawu rhagor o fanylion am yr adenillion perfformiad ac ariannol a gyflawnwyd lle'r oedd gwaith y Cyfarwyddwr Adfer dros dro yn canolbwyntio ar hyn. Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd yn Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru fod y gyfradd a dalwyd yn uwch na'r rhan fwyaf o'r cymaryddion meincnodi a ddefnyddiwyd. A fyddech cystal ag esbonio hefyd p'un a oedd y gyfradd ddyddiol a dalwyd i'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro a'r gost am ei wasanaethau'n gyffredinol yn cynrychioli gwerth am arian?*

## Perfformiad

Cytunwyd ar nifer o amcanion allweddol ar adeg penodi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro a oedd yn amlinellu'r canlyniadau a oedd yn ofynnnol ar gyfer y rôl. Cafodd y rhain eu cyflwyno fel y'i disgrifir isod.

Er mwyn cynnig arolygiaeth ychwanegol o'r gyfradd gynnal ariannol ac i ategu ymhellach at sicrhau effeithlonrwydd, gwnaeth y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro roi cyfarfodydd bob pythefnos ar waith gydag uwch arweinwyr Uwch Adrannau, a roddodd fodd o graffu ar gyflawni yn unol â'r targedau arbedion a'r gyfradd gynnal gwariant. Cafodd cyfarfodydd eu cynnal gyda'r grwpiau gwella ffrydiau gwaith allweddol (fel caffael, rheoli meddyginiaethau a gweithlu), a oedd yn adolygu cynnydd yn erbyn targedau arbedion a darparu gwell effeithlonrwydd a chynhyrchiant.

Cafodd Grŵp Adfer Ariannol ei sefydlu a oedd yn cynnig modd o graffu ar y rhaglen adfer ac adroddodd wrth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Roedd yr arolygiaeth ychwanegol hon yn fodd o ategu at well darpariaeth o ran effeithlonrwydd ar draws y Bwrdd Iechyd.

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro gyflwyno'r cyflenwyr a phartneriaid allanol i'r Bwrdd Iechyd er mwyn ystyried modelau effeithlonrwydd amgen. Cafodd y rhain eu caffael trwy fframweithiau presennol y GIG ac roeddent yn cynnwys adolygu rotas meddygol, clinigau cleifion allanol a chaffael. Gwnaeth yr adolygiadau gwasanaeth ganfod cyfleoedd i wella cynhyrchiant neu effeithlonrwydd tra'r oedd yr adolygiad caffael yn gwireddu cyfleoedd i sicrhau buddion arian parod o wella'r prosesau presennol.

Aeth y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro i gyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a chynghorodd ar ganfod cyfleoedd a oedd yn ofynnol er mwyn

cynnal adferiad ariannol y Bwrdd Iechyd. Gwnaeth y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro argymell ymagwedd well tuag at y modelau llywodraethu a chraffu a oedd eu hangen i gynorthwyo'r rhaglen ac i'w chyflwyno a chafodd y modelau hyn eu rhoi ar waith gan y Bwrdd Iechyd.

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro weithio gyda thîm rheoli'r prosiect i ddatblygu fformat adrodd cynhwysfawr a oedd yn adrodd bob wythnos wrth y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd a chafodd ei graffu yn y Grŵp Adfer Ariannol. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro ar lefel yr adnoddau a oedd eu hangen i gyflwyno'r rhaglen adfer. Roedd hyn yn cynnwys argymell defnyddio partneriaid allanol i ddarparu arbenigedd mewn meysydd gweithredol penodol.

**Adenillion ariannol**

Mewn perthynas ag adenillion ariannol, yn 2018/19, roedd y Bwrdd Iechyd wedi sicrhau £38.3m o arbedion, yr oedd £23.6m o'r swm hwn yn arbedion rhyddhau arian parod (62%). Ar ddechrau 2019/20, dangosodd sefyllfa'r arbedion fod £12.4m wedi'i ganfod, yr oedd £8.2m o'r swn hwn yn arbedion rhyddhau arian parod, yn erbyn targed o £34.5m.

Cafodd y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro ei benodi ym mis Gorffennaf 2019 ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol [pan ddaeth contract y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro i ben], roedd y Bwrdd Iechyd wedi gorgyflawni o ran y targed arbedion arfaethedig o £1.1m; £35.6m o arbedion, yr oedd £33.2m o'r rhain yn rhai rhyddhau arian parod - 93%, sy'n £9.6m yn uwch o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gyda chymorth gwaith y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro, gwnaeth y Bwrdd Iechyd roi proses fwy cadarn ar waith i ganfod arbedion ac adrodd arnynt. Roedd hyn yn cynnwys diweddaru'r teclyn olrhain arbedion cynhwysfawr bob dydd, yn seiliedig ar allbynnau o'r Swyddfa Reoli Rhaglen (PMO), y tîm gwella gwasanaethau ac adborth o'r uwch adrannau.

Cafodd adroddiad wythnosol ei roi i'r Bwrdd Iechyd, gan adrodd trwy'r Grŵp Adfer Ariannol ac i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, yn y pen draw. Cafodd yr argymhellion o adolygiad ariannol PwC eu rhoi ar waith hefyd ynghyd â rheolyddion ariannol ychwanegol, i wella cyfradd gynnal gwariant. Cafodd cynnydd yn erbyn y gweithredoedd hyn eu monitro hefyd gan y Grŵp Adfer Ariannol a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Cafodd yr adroddiadau uwch adrannol eu diweddaru'n unol ag amserlen cyfarfodydd deufisol i gynnwys cynlluniau gweithredu a naratif yn ymwneud ag arbedion a chyfleoedd i leihau cyfradd gynnal gwariant. Yn olaf, cafodd y dulliau llywodraethu'n ymwneud â phiblinell arbedion ac adferiad ariannol eu hatgyfnerthu'n sylweddol.

Mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn bod y perfformiad a'r adenillion a amlinellir uchod yn cynrychioli gwerth am arian o ran y gyfradd ddyddiol a dalwyd i'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro.

**Cwestiwn:** *A oes modd hefyd i chi ddarparu manylion am effaith gwaith y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro ac esboniad manylach o'r rheswm pam mae ymateb y Bwrdd Iechyd yn awgrymu bod y gyfradd ddyddiol a dalwyd yn unol â chyfraddau'r farchnad.*

Ymdrinnir ag effaith penodi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro yn yr adran uchod.

Ar adeg y cyfweliadau i benodi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro, cynhaliwyd trafodaethau rhwng Arweinydd Swyddfa Archwilio Cymru a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol ynghylch y broses ar gyfer meincnodi penodiadau o'r natur hon, er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Yna, gwnaeth y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol ar yr adeg ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad blaenorol o rolau gweddnewid/adfer a benodwyd iddynt mewn sefydliadau blaenorol, ynghyd â gwirio synnwyr gwybodaeth a oedd ar gael ar y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol.

Cafodd tri ymgeisydd eu cyfweld ar gyfer y rôl hon. Y cyfraddau ar gyfer y ddau ymgeisydd aflwyddiannus oedd:

- Ymgeisydd 1: £2,100 y dydd
- Ymgeisydd 2: £1,700 y dydd

Ar adeg penodi, gwnaeth y wybodaeth hon helpu hefyd i hysbysu'r Bwrdd Iechyd ynghylch y gwerthoedd eang ar y farchnad a oedd yn ddisgwyliedig ar gyfer y rolau hyn. Mae enghreifftiau eraill o gyfraddau'r farchnad a ystyriwyd a oedd wedi'u cyhoeddi yn y cyfryngau'n cynnwys:

- North Tyneside CCG: £1,700 y dydd (2016)
- Brighton & Sussex University Hospital, King's College Hospital: £3,000 y dydd (2016)

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i dalu'r asiantaeth a oedd yn cyflenwi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro gyfradd o £1,890 y dydd gydag ad-daliad wedi'i gapio o dreuliau 'allan o boced' rhesymol yn cael eu talu ar £100 y dydd am gyfnod o naw mis. Roedd taliadau'n unol â pholisi treuliau'r Bwrdd Iechyd.

**Casgliad**

Y gobaith yw bod yr ymateb a roddwyd uchod yn mynd i'r afael yn ddigonol ag ymholiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Os bydd angen rhagor o wybodaeth, bydd y Bwrdd Iechyd yn falch o ddarparu'r manylion sydd eu hangen.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio
Climate Change, Energy and Planning

Nick Ramsay AS
Cadeirydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

1 Mawrth 2021

Annwyl Nick

**Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Hydref yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen ag argymhellion 5, 6 a 7 eich adroddiad ar Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru. Fel y cytunwyd gyda'r clerc, yr wyf yn ymateb ar ran Andrew Slade a rhaid imi ymddiheuro am yr oedi cyn gwneud hynny.

Yr wyf yn falch o gael y cyfle i egluro ein dull o gynllunio lleoedd fel y cyfeirir ato yn Argymhelliad 5. Credwn fod angen gwahaniaethu rhwng yr amcan polisi – Creu Lleoedd ac un o'r dulliau sydd ar gael i weithredu'r polisi sef Cynlluniau Lleoedd. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth i wneud Cynlluniau Lleoedd yn ofyniad statudol ond rydym am weld Creu Lleoedd yn rhan annatod o'r system gynllunio fel y mae'r Pwyllgor yn awgrymu.

Diwygiwyd Polisi Cynllunio Cymru yn gynhwysfawr yn 2018 ac mae'n cynnwys ffocws ar ddefnyddio'r system gynllunio i wneud lleoedd drwy baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a phenderfyniadau cynllunio unigol. Mae angen i wneud lleoedd yn y cyd-destun hwn fod yn ddull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol. Dylai fanteisio ar botensial ardal i greu mannau datblygu a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a lles pobl yn yr ystyr ehangaf. Cawsom ein calonogi bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cymeradwyo'r dull y mae Polisi Cynllunio Cymru wedi'i fabwysiadu gan ddweud ei fod yn un o'r enghreifftiau gorau hyd yma o'r defnydd o'r Ddeddf i gynllunio polisi cenedlaethol yng Nghymru ac i ymgysylltu â'i swyddfa.

Cytunwn felly fod angen i wneud lleoedd ddod yn fwyfwy canolog i'r ffordd rydym yn defnyddio ein trefi a'n dinasoedd, yn enwedig yng ngoleuni sgil-effeithiau Covid-19 a'r argyfwng hinsawdd i gymunedau. Rydym yn ffodus bod Polisi Cynllunio Cymru a Cymru’r Dyfodol diwygiedig yn ein rhoi mewn sefyllfa gref. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi hefyd fod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi canllawiau ar sut y dylai'r system gynllunio gyfrannu at yr adferiad o'r pandemig. Mae Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair yn nodi 8 thema lle mae angen gweithredu.

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ
Ffôn / Tel: 0300 025 5445
FfaGwefan • website:
www.wales.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

• Cadw’n lleol: creu cymdogaethau
• Teithio llesol: ymarfer corff a dulliau teithio a ailddarganfyddir
• Adfywio canol ein trefi
• Lleoedd digidol – achubiaeth yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud
• Newid arferion gwaith: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol
• Ailddeffro sector twristiaeth a sector diwylliannol Cymru
• Seilwaith gwyrdd, iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol
• Gwella ansawdd aer a seinweddau er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/adeiladu-lleoedd-gwell-y-system-gynllunio-yn-sicrhau-dyfodol-cydnerth-a-mwy-disglair.pdf

Mae Adeiladu Lleoedd Gwell yn cyfeirio at lle mae canllawiau pellach ar gael a'r adnoddau y gallai cynllunio lleol eu defnyddio i gael cymorth.  Y disgwyliad cenedlaethol clir yw y bydd CDLlau a phenderfyniadau cynllunio yn gweithredu'r polisi yn lleol.  Os na fydd hyn yn digwydd, gall y Gweinidog roi sylwadau ar CDLlau neu geisiadau cynllunio galw i mewn. Mae Cynlluniau Lleoedd yn offeryn a all helpu i weithredu'r polisi creu lleoedd. Bydd y Prif Gynllunydd, drwy ei ddeialog rheolaidd â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW), yn parhau i annog awdurdodau cynllunio lleol i gefnogi'r gwaith o baratoi Cynlluniau Lleoedd. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at y cyfraniad gwerthfawr y gall Cynlluniau Lleoedd ei wneud i broses adolygu'r CDLl a sut y gall canllawiau a hyfforddiant ar baratoi Cynlluniau Lleoedd, a gynhyrchir gan Gomisiwn Dylunio Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru gan ddefnyddio cymorth grant gan Lywodraeth Cymru, gefnogi'r broses.

O ran argymhellion 6 a 7 rydym yn obeithiol y gellir datblygu cydweithrediad rhanbarthol ar A106 a materion cynllunio technegol eraill yn gyflymach nag y mae'r Pwyllgor yn ei awgrymu. Ein polisi hirsefydlog yw y dylai awdurdodau cynllunio lleol gyfuno eu swyddogaethau cynllunio arbenigol a thechnegol er mwyn cynyddu cydnerthedd.  Ni ddylai cyfuno adnoddau rhwng awdurdodau fel hyn ddibynnu ar gwblhau Cynlluniau Datblygu Strategol.  Cytunwn yn gryf â'r Pwyllgor fod Adran 106 a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn parhau i fod yn arfau pwysig i liniaru effaith datblygiadau ar gymunedau.  Fodd bynnag, mae hwn yn faes lle bydd angen ailgynllunio polisi'n sylweddol os ydym am adlewyrchu natur datblygiadau yng Nghymru a gwerthoedd tir cysylltiedig yn gywir.  Fel y mae eich adroddiad yn ei nodi, mae data cywir sy'n cwmpasu'r maes hwn yn brin.  Rydym yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi ymhellach er mwyn mynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor.  Ein bwriad ar hyn o bryd yw y byddwn wedi comisiynu ymchwil pellach yn y maes hwn erbyn diwedd eleni.  Yn y cyfamser, mae hon yn agwedd ar y system gynllunio y byddwn yn parhau i'w hadolygu'n barhaus.

**JOHN HOWELLS**
Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio

**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay MS
Chair
Public Accounts Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

3rd March 2021

Dear Chair

**CARDIFF AIRPORT**

Further to my recent evidence session with Public Accounts Committee, I am writing to advise that the Minister for Economy, Transport and North Wales has issued a Written Ministerial Statement on future support for Cardiff Airport.

COVID-19 has had an extraordinary impact on all of our lives, locally and around the globe. The pandemic continues to cause major disruption to all aspects of society and the economy, and, as you know, the travel industry has been one of the hardest hit sectors. Civil aviation has all but been devastated by the curtailment of virtually all passenger flights, deserted airports and entire fleets grounded.

Further to the unprecedented package of support that the Welsh Ministers have already made available to individuals and businesses across Wales, Ministers have today set out a financial package to provide support to CIAL in the medium term, against a five year rescue and recovery plan. This maximises the recovery of the Welsh Government loan investment and provides sustainability for the airport while delivering the lowest lifetime cost option. This provides the best way forward on strictly commercial/market investor terms, while acknowledging the unavoidable risks and uncertainties created by the global crisis in the industry.

The rescue and recovery plan will be performance managed regularly in order to evaluate and protect our ongoing investment. Further to this, we are also in the process of reviewing the

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales


BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

governance of Cardiff Airport and strengthening the role that Holdco will play moving forward. I will let you know the outcome of those deliberations in due course.

The full details of the financial support package are provided within the Statement attached.  I am copying this letter to the Auditor General for Wales.

With best wishes.

Yours sincerely



**Andrew Slade**
Director General
Economy, Skills and Natural Resources

**CC**: Adrian Crompton, Auditor General for Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# WRITTEN STATEMENT BY THE WELSH GOVERNMENT

| | |
|---|---|
| **TITLE** | **Future support for Cardiff Airport** |
| **DATE** | **3 March 2021 (TBC)** |
| **BY** | **Ken Skates AM, Minister for Economy, Transport and North Wales** |

Cardiff International Airport (CIAL) is a vital gateway to Wales for business, tourists and general travellers alike. It is vital for Wales's economic development that we have strong international connectivity to and from Wales as well as a welcoming open door for tourism.

In 2013, the Welsh Government purchased Cardiff Airport as a strategic addition to Wales' transport infrastructure and to secure its future after an extended period of commercial decline and develop high-quality services and additional routes for passengers.

Under Welsh Government ownership, the airport has been operated at arm's length on a commercial basis and, up until 12 months ago, had witnessed a significant turnaround in fortunes. So much so that since 2013, figures from the Civil Aviation Authority showed that passenger growth at Cardiff Airport had increased by over 50 per cent.

Within Wales, as elsewhere, COVID-19 has had a catastrophic impact on public transport and we have made additional support available to maintain bus and rail services in Wales.  The Aviation Industry globally has been hit particularly badly and virtually all passenger flights have been curtailed, airports are deserted and entire fleets have been grounded. That impact has been felt at Cardiff Airport as it has been at every other airport across the world.

For instance, last week Heathrow Airport reported a £2bn annual loss after passenger numbers during the coronavirus pandemic dropped to levels not last seen since the 1970s.

The COVID-19 pandemic is expected to impact the aviation industry for several years to come.

As of November 2020, Standard & Poor's (S&P) forecasted that global air traffic will not return to pre-COVID-19 levels over the period 2021 – 2023. In their projections, published in November 2020, S&P noted that, in 2023, traffic is expected to be 12.5% below 2019 levels.

As a consequence of the COVID-19 pandemic, the Airports Council International (ACI) and the Airports Operators Association (AOA) have updated their medium-term projections of passenger traffic in December 2020 and February 2021 respectively. The projections published by the AOA in February 2021 confirm that the prolonged travel restrictions lead to a slower recovery, with the AOA projecting a slower path to recovery in the UK compared with the ACI's global projections.

Global air traffic fell to its lowest level for 17 years in 2020: Passenger numbers plunged from 4.5bn in 2019 to 1.8bn last year with airlines losing a combined £270bn due to Covid. A Civil Aviation Authority (CAA) report shows Cardiff Airport as having the biggest decline over the past year of 87% over any other UK airport.[1]

The priority for all airports across the globe, including Cardiff, is recovery, sustainability, and eventual growth.

Since last March we made the conscious decision to keep our airport open to support freight and logistics during the pandemic which also saw delivery of much needed PPE for the NHS in Wales. The Board and management team at CIAL have been working hard to reduce costs as much as possible and generate new sources of revenue.

Cardiff Airport have put most of their staff on the UK Govenrment's furlough scheme in order to provide maximum cost savings to the business.

Alongside this Cardiff Airport originally contracted out around 60 staff to provide a call-centre service to support Cardiff and Vale of Glamorgan Local Authorities test and trace facilities. The Welsh Government continues to do what it can to ensure Wales continues to have a national airport into the future that can support our economy as part of an integrated public transport network.

The UK Government has provided a new £100m airport COVID support package which is for English airports only. Northern Ireland will provide £10m in funding for Belfast airports, plus support for other regional airports will be considered as part of their £150m rate relief scheme. The European Commission has approved, under EU State aid rules, a GBP 17 million (approximately €20 million) UK aid scheme to compensate Scottish airports for the damage suffered due to the coronavirus outbreak. Scottish Government will provide £17m to Scottish Airports to help them through this period.

I expect the UK Government to review its Aviation policy to reflect the extraordinary situation we are now in and to create, and fund, a substantial package of support that can support the regulatory and financial costs on critical regional airports such as Cardiff. However, despite these calls to the UK Government, Cardiff Airport has not received any direct support from the UK Government to ensure its medium to long-term viability. As the shareholder, and recognising the importance of this key infrastructure, we have decided to take decisive action now – to delay would mean the loss of the airport and our entire investment

The Welsh Government have agreed a financial package to provide support to Cardiff International Airport Limited (CIAL) in the medium term against a five year plan for the rescue and restructure of the airport. This Government business support package satisfies the terms of the UK-EU Trade and Co-operation Agreement, in particular the provisions around subsidies for the purposes of rescue and restructure. We have agreed investment by way of a grant of up to £42.6m which will be given to enable Cardiff Airport to restructure its operations, and secure its long term viability.

Separately, as sole shareholders of Cardiff Airport, we have made the decision on a purely commercial basis to write off £42.6 million of the airports debt. This decision maximises the likelihood of recovery of Welsh Government loan investment and delivers the lowest lifetime cost option. It provides the best way forward for the Welsh Ministers as sole shareholders of the airport from a commercial perspective,

We are also impairing the equity at this time as a prudent step to reflect the loss of value as a result of Covid which amounts to £46.3m. By taking this action we are confident that this will best protect the value of the public investment in the airport and ensure that it is sustainable into the future.

The performance of Cardiff Airport as against its restructure plan will be monitored and performance managed regularly in order to evaluate and protect our ongoing investment.

This investment package helps protect jobs and preserves connectivity in an area of the UK where, alongside our exciting new Metro programme, we want to build high quality infrastructure to support the economy. This funding will help sustain up to 5,200 indirect jobs retained from the economic activity of the firms on-site at the airport and from the firms in the wider supply chain, at a time when we know the Aviation sector needs support.

The announcement of the new Wizz services is welcome news and a positive step that will help Cardiff Airport emerge from the impact of the Covid-19 pandemic. The services will increase choice for passengers, create jobs and add to the airport's economic benefits and I look forward to the nine new routes being made available in the coming months.

Building an economy and transport system fit for the future means taking action now to support our vital, national infrastructure and assets through these difficult and extraordinary days of Covid. Just as it has done supporting other critical services through this pandemic, the Welsh Government has acted swiftly and decisively – in this case to help secure Cardiff Airport and ensure it can contribute to our recovery.

I will keep the Senedd informed of developments at Cardiff Airport and will be happy to answer questions from members during my questions this afternoon.

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

4 Mawrth 2021

Annwyl Mr Ramsay,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn fy mhresenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 8 Chwefror.

Gofynnodd y Pwyllgor am gopi o ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Estyn ar brofiad dysgu disgyblion. Gallaf gadarnhau fe'i gyhoeddwyd ar 23 Chwefror, gyda copi ar gael yma: https://llyw.cymru/adolygiad-thematig-estyn-o-gymorth-awdurdodau-lleol-chonsortia-rhanbarthol-i-ysgolion-ac-ucdau

Cytunais hefyd i rannu copi o'r adroddiad cychwynnol ar werthusiad cymorth ehangach a grantiau i fusnesau, ynghyd â'r rhai a weinyddir trwy awdurdodau lleol. Fy nghydweithiwr Andrew Slade sydd yn cymryd y gwaith hwn ymlaen, felly, rwyf wedi cytuno y bydd yn cynnwys hyn yn ei ymateb atoch.

Fel arfer, byddwn yn fwy na pharod i ddarparu unrhyw wybodaeth neu eglurhad pellach sydd eu hangen ar y Pwyllgor.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Andrew Slade.

Yr eiddoch yn gywir

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website:
www.llyw.cymru.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

8 Mawrth 2021

Annwyl Gadeirydd

**Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS – SESIWN DIWEDD Y TYMOR**

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth a fynychais gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 8 Chwefror, ymrwymais i ysgrifennu atoch i ddarparu rhagor o wybodaeth mewn nifer o feysydd, fel y dangosir yn y camau dilynol sy'n deillio o'r sesiwn.

Nodir yr wybodaeth ofynnol isod ac mae wedi'i rhifo er hwylustod.

1. **Cytunwyd i egluro'r sefyllfa ariannol o ran Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru (ICCW) a chynghori'r Cadeirydd**

Buddsoddodd Llywodraeth Cymru £1 miliwn fel rhan o'r pecyn cyllid a luniwyd ym mis Medi 2020. Gwnaeth y partner cyfranddaliadau, sef The Celtic Manor Resort Ltd fuddsoddi'r un peth. Cyflwynwyd benthyciad banc newydd o £2.5 miliwn ar yr un pryd. Oherwydd bod gan Lywodraeth Cymru gyfran o 50% yn y cwmni, roedd rhwymedigaeth i dderbyn taliadau cyllideb cyfalaf o £1.25 miliwn mewn perthynas â'r benthyciad newydd, a fydd yn gwrthdroi wrth i'r ddyled gael ei had-dalu.

Felly, mae'n fuddsoddiad uniongyrchol o £1 miliwn, ynghyd â'r tâl cyllideb cyfalaf o £1.25 miliwn sy'n effeithio ar gyllideb 2020/21.

2. **Bydd yn cadarnhau a oes unrhyw gytundebau benthyca eraill ar waith rhwng Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus sy'n debyg i'r trefniant gyda Maes Awyr Caerdydd**

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae'r cytundebau benthyca gyda Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf (CIAL) yn dwyn llog a gallaf gadarnhau bod gan Lywodraeth Cymru nifer o gytundebau benthyca eraill ar waith gyda darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, nid oes trefniant tebyg am debyg ar waith ac mae'r holl fenthyciadau a wneir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hasesu a'u dyfarnu yn seiliedig ar rinweddau pob achos.

Mae'r benthyciadau i CIAL wedi'u gwneud ar sail buddsoddi Egwyddor Gweithredwr Economi'r Farchnad (MEOP) fel y byddem yn ei wneud ar gyfer unrhyw fusnes arall. Nid dyma'r un sail ag y mae benthyciadau i awdurdodau lleol, neu debyg, yn cael eu gwneud. Yn yr achosion hyn, rydym yn cynnig amrywiaeth o becynnau cymorth ariannol, sy'n cynnwys benthyciadau ar sail fasnachol, lle mae'r telerau'n amrywio rhwng ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd dalu'r llog drwy gydol cyfnod y benthyciad a lle caiff y llog ei grynhoi fel taliad bwled ar ddiwedd cyfnod y benthyciad.

**3. Bydd yn cadarnhau'r cyfanswm sy'n ddyledus ar yr holl fenthyciadau a dynnwyd i lawr hyd yn hyn ynghyd â llog a gronnwyd hyd yn hyn**

Y cyfanswm sy'n ddyledus ar yr holl fenthyciadau i CIAL sydd wedi'u tynnu i lawr hyd yn hyn yw £59.4 miliwn (gan gynnwys cyfleuster benthyca brys ar gyfer COVID-19 o £4.8 miliwn) ynghyd â llog a gronnwyd hyd yn hyn o £9.5 miliwn.

**4. Cytunwyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Faes Awyr Caerdydd bob chwe mis i'r Pwyllgor olynol**

Ysgrifennais atoch ar 3 Mawrth i egluro statws presennol y trefniadau ariannu gyda Maes Awyr Caerdydd ac i roi gwybod am y datganiad a wnaethpwyd gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru. Bydd fy swyddogion yn parhau i roi'r newyddion diweddaraf bob chwe mis i'r Cadeirydd yn ôl y gofyn.

**5. Bydd yn rhannu'r cynllun cyflawni ar gyfer yr Economi Sylfaenol**

Mae Cynllun Cyflawni'r Economi Sylfaenol ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd ac yn aros i Weinidogion ei gymeradwyo. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau cyn diwedd mis Mawrth a byddwn yn anfon y fersiwn gymeradwy at y Cadeirydd cyn gynted ag y bydd ar gael.

**6. Bydd yn darparu ffigurau mewn perthynas â'r cynlluniau cymorth ariannol a ddarparwyd a'u canlyniadau i fusnesau ar gyfer pob cylch ymgeisio yn ystod y pandemig.**

Darparwyd dadansoddiad llawn o'r cynlluniau cymorth ariannol a ddarparwyd a'u canlyniadau yn y papur tystiolaeth i gefnogi'r sesiwn. Rwyf wedi atodi'r manylion yn Atodiad A er hwylustod.

**7. Bydd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gael llinell gymorth bwrpasol ar gyfer rhoi gwybod am achosion tybiedig o dwyll sy'n gysylltiedig â COVID-19.**

Mae gan Lywodraeth Cymru eisoes linell gymorth ffôn ac e-bost sy'n bwrpasol ar gyfer twyll. Mae'r rhain wedi cael eu monitro gan y Pennaeth Gwrth Dwyll drwy gydol y pandemig. Cadwyd cysylltiad cryf â Llywodraeth y DU ac mae Llywodraeth Cymru wedi cael adroddiadau rheolaidd ar achosion tybiedig o dwyll sy'n ymwneud â Chymru o linellau adrodd y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yn Swyddfa Gabinet y DU, Crime Stoppers a thrwy Action Fraud, sef canolfan adrodd genedlaethol y DU ar gyfer twyll a seiberdroseddu. O ganlyniad i'r ffordd hon o weithio, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen creu dulliau ychwanegol ar gyfer adrodd am dwyll, rhag ofn bod hyn yn creu cymhlethdod ychwanegol di-fudd. Mae'r ffordd hon o adrodd am dwyll yn gyson â'r hyn a wneir gan y Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud gyda'r ymarfer paru data a fydd yn adolygu'r holl daliadau COVID-19 ac yn paru â data CThEM. Bydd Llywodraeth Cymru, fel arfer, yn gweithio'n agos gydag Archwilio Cymru ar yr ymarfer hwn.

**8. Bydd yn sicrhau bod copi o'r adroddiad cychwynnol ar werthuso cymorth busnes ehangach, grantiau busnes, ynghyd â'r rhai a weinyddir drwy awdurdodau lleol, yn cael ei anfon at y Pwyllgor.**

Penodwyd Dirnad Economi Cymru (EIW) i archwilio effaith a chynnal gwerthusiad o'r Gronfa Cadernid Economaidd. Cyhoeddwyd yr adroddiad cam cyntaf "Ymyriadau ariannol COVID-19: Dadansoddiad o fuddiolwyr Cymru" ym mis Rhagfyr 2020. Mae ymyriadau'r Gronfa Cadernid Economaidd yr ymchwilir iddynt yn yr adroddiad hwn yn cynnwys grantiau busnes Cam 1 a 2 a weinyddir gan Lywodraeth Cymru a Chynllun Benthyciadau Busnes COVID-19 Cymru a reolir gan Fanc Datblygu Cymru. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn ystyried y grantiau ardrethi annomestig a weinyddir gan awdurdodau lleol. Mae dau gam arall i waith Dirnad Economi Cymru sy'n cynnwys elfen arolwg a gwerthusiad dilynol o effaith a chasgliadau a gynlluniwyd ar gyfer 2021 a dechrau 2022. Mae'r ddolen isod yn dangos yr adroddiad gwerthuso.

https://developmentbank.wales/sites/default/files/2020-12/EIW%20bespoke%20report%20on%20Covid-19%20interventions_CYM.pdf

Mae'r ddolen hon yn dangos ffeithlun sy'n rhoi dadansoddiad o fuddiolwyr Cymru.

https://developmentbank.wales/sites/default/files/2020-12/EIW%20COVID-19%20infographic_CYM.pdf

Un maes arall i'w nodi yw fy ymrwymiad i rannu adroddiad terfynol yr adolygiad mewnol o'r broses gaffael ar gyfer Cefnogi Swyddi Cymru. Byddaf yn ei gyhoeddi cyn bo hir ac yn anelu at ei anfon atoch chi cyn cyfnod y Pasg.

Rhowch wybod i mi os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach.

Gyda dymuniadau gorau.

Yn gywir



**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

**Atodiad A**

**Y Gronfa Cadernid Economaidd COVID-19 – Diweddariad**

| **System Cyfrifon Busnes - Y Gronfa Cadernid Economaidd 1** | **Micro** | **BBaCh** | **Mawr** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau a ddaeth i law | 8,143 | 1,311 | 28 | **9,482** |
| Swm £m (a gafwyd) | £106.0 | £56.1 | £11.8 | **£173.9** |
| | | | | |
| Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd | 5,850 | 1,124 | 24 | **6,998** |
| Swm £m (a gymeradwywyd) | £78.8 | £48.6 | £10.5 | **£137.9** |
| Swyddi wedi'u diogelu | 20,820 | 27,135 | 47 | **48,002** |

| **System Cyfrifon Busnes - Y Gronfa Cadernid Economaidd 2** | **Micro** | **BBaCh** | **Mawr** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau a ddaeth i law | 4,827 | 358 | 5 | **5,185** |
| Swm £m (a gafwyd) | £50.2 | £13.7 | £1.3 | **£65.2** |
| | | | | |
| Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd | 4,473 | 320 | 4 | **4,797** |
| Swm £m (a gymeradwywyd) | £46.7 | £12.7 | £1.3 | **£60.7** |
| Swyddi wedi'u diogelu | 4,340 | 7,234 | 0 | **11,574** |

| **Banc Datblygu Cymru – Cynllun Benthyciad Busnes COVID-19 Cymru** | **CYFANSWM** |
|---|---|
| Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd | 1,132 |
| Swm £m (a gymeradwywyd) | £92.0 |
| Swyddi wedi'u diogelu | 16,000 |

| **Grantiau Ardrethi Annomestig** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant 1 : 25k (Mawrth) | | Grant 2: 10k (Mawrth) | | Grant 3: 2.5k (Lleol) | |
| Nifer y taliadau | Gwerth y taliadau | Nifer y taliadau | Gwerth y taliadau | Nifer y taliadau | Gwerth y taliadau |
| **8,502** | **£212,303,060** | **56,079** | **£561,281,046** | **1,648** | **£4,120,000** |

| Grant 4: 5K (Cyfnod atal byr) | | | Grant 5: 1-4K (Cyfnod atal byr) | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y taliadau | Gwerth y taliadau | Nifer y gweithwyr | Nifer y taliadau | Gwerth y taliadau | Nifer y gweithwyr |
| **4,963** | **£24,811,000** | **58,655** | **37,523** | **£94,371,000** | **152,502** |
| Grant 6: 1.5K/2k | | | | | |
| Nifer y taliadau | Gwerth y taliadau | Nifer y gweithwyr | | | |
| **10,686** | **£18,253,647** | **28,086** | | | |

| Cyfyngiadau'r Nadolig ac Estyniadau hyd yn hyn | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grant 7: 3K | | Grant 8: 5K Gwerth ardrethol 21-50 | | Grant 9: 5k Gwerth ardrethol 51+ | | Grant 10: 2k Disg | |
| Nifer y taliadau | Gwerth y taliadau | Nifer y taliadau | Gwerth y taliadau | Nifer y taliadau | Gwerth y taliadau | Nifer y taliadau | Gwerth y taliadau |
| **23,583** | **£70,727,500** | **4,600** | **£23,345,000** | **425** | **£2,257,000** | **4,744** | **£9,606,000** |

**<u>Y Gronfa Cadernid Economaidd – Grant Datblygu Busnes a'r Gronfa Cymorth Penodol i'r Sector:</u>**

Grantiau Datblygu Busnes:

| **Grant Datblygu Busnes** | **Micro** | **BBaCh / Mawr** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau a ddaeth i law | 4,393 @41.88m | 1,456 | **5,849** |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 3,208 @ £30.4m | 639 | **3,847** |
| Cynigion a wnaed | 1,186 @ £11.5m | 817 @ £34.7m | **2,003** |
| Cynigion a dderbyniwyd | 1,185 @ £11.5m | 809 @ £34.6m | **1,994 @£46m** |

(Gwybodaeth ym mis Ionawr 2021)

Eitem 2f

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Nick Ramsay AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Mawrth 2021

Annwyl Mr Ramsay,

**Diweddariad ar Addasiadau Tai**

Ymhellach i Addasiadau Tai: Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2019, ysgrifennais atoch ar 28 Mai 2020 ac wedi hynny ar 22 Hydref gyda diweddariad ar ddatblygiadau. Rwy'n ysgrifennu nawr gyda gwybodaeth bellach ar yr argymhellion sy'n weddill.

Yn gyntaf, mewn perthynas ag **Argymhelliad 3** – mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig ar 10 Mawrth mewn perthynas ag addasiadau bach a chanolig eu maint. O Ebrill 2021 bydd yn haws i bobl anabl gael cymorth gydag addasiadau bach a chanolig eu maint i'w cartrefi wrth i ni gymryd camau i ddileu'r prawf modd ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCA). Os dilëwn y prawf modd, mae ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn cyfrifo y byddai'n golygu cost ychwanegol ar lywodraeth leol yng Nghymru o £238,000, tra byddai pob awdurdod lleol yn arbed £6,000-£10,000 bob blwyddyn mewn costau gweinyddol. Cyhoeddwyd yr ymchwil hwn ar wefan y GPCC ar 10 Mawrth.

Mae awdurdodau lleol dan ddyletswyddau statudol i roi GCA i bobl anabl sy'n gymwys ac ni fydd hyn yn newid. Fodd bynnag, gallant ddefnyddio pwerau o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2002 i roi grantiau heb gynnal prawf modd. Mae'r Gweinidog wedi cynyddu'r grant Hwyluso i awdurdodau lleol o Ebrill 2021 o £400,000, i £4.4 miliwn. Gellir defnyddio'r grant ychwanegol hwn i gwrdd â phwysau cyllid cyfalaf a delio ag unrhyw dagfeydd posibl fel canlyniad i gynnydd yn y galw am addasiadau. Rydym yn hyderus y gallwn barhau i'w wneud yn haws i'r rhai sydd eu hangen gael addasiadau, yn ogystal â lleihau amseroedd aros, drwy gydweithio gydag awdurdodau lleol.

Yn achos y nifer bach o addasiadau mawr a wneir bob blwyddyn, hoffwn dynnu sylw at y canllawiau diwygiedig ar gyfer rhaglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig (GGI) ar gyfer 2021/22 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr. Fel arfer, dim ond yn yr achosion mwyaf cymhleth y mae gofyn am addasiadau mawr, megis teuluoedd â phlant anabl, oedolion â chlefyd sy'n cwtogi bywyd, neu ddamweiniau difrifol. Mae datrys y materion ariannol yn gallu cymryd llawer o amser, gan arwain at drallod sylweddol a pharhaus. O dan ganllawiau diwygiedig y GGI, mae Byrddau Partneriaeth

Rhanbarthol yn cael defnyddio eu disgresiwn i gwrdd â chostau ychwanegol addasiadau sy'n costio mwy na £36,000. Byddwn yn monitro'r defnydd a wneir o'r hyblygrwydd hwn dros y flwyddyn nesaf.

Yn ail, mewn perthynas ag **Argymhelliad 5** - ynghylch gweithio rhanbarthol integredig ac un pwynt mynediad at wasanaethau addasu. Mae drafft terfynol o'r fframwaith strategol ar gyfer Grwpiau Cynllunio Addasiadau Tai rhanbarthol i'w drafod yn y Grŵp Llywio Addasiadau Tai ar 11 Mawrth. Gofynnir i'r Grŵp gymeradwyo'r fframwaith, ac ar ôl hynny byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid. Bydd y fframwaith strategol yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf ar gyfer gweithredu fesul cam, gyda gweithrediad llawn o Ebrill 2022.

Bydd aelodaeth y Grwpiau Cynllunio yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, asiantaethau Gofal a Thrwsio, y Bwrdd Iechyd Lleol (gan gynnwys gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Therapydd Galwedigaethol), cyrff Trydydd Sector perthnasol a chynrychiolaeth defnyddwyr gwasanaeth. Pwrpas y Grwpiau fydd:

- sefydlu dull mwy trefnus ac integredig o ddarparu addasiadau;
- nodi blaenoriaethau strategol a rennir;
- sefydlu llwybr syml a chlir i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth gael mynediad at unrhyw gymorth neu addasiad sydd ei angen arnynt, ni waeth pwy sy'n ei ddarparu;
- sefydlu dealltwriaeth ehangach o angen y boblogaeth a'r galw am addasiadau.

Bydd perthynas uniongyrchol â Byrddau Partneriaeth Ranbarthol. Bydd telerau ac amodau grantiau addasiadau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr weithredu trwy'r Grwpiau Cynllunio Addasiadau Tai rhanbarthol.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor am eich diddordeb mewn addasiadau tai a'ch argymhellion ar gyfer newid. Mae wedi dod â ffocws newydd i'n meddylfryd polisi yn y maes hwn.

Wrth gwrs, byddwn yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth neu eglurhad pellach yn ôl yr angen.

Yn gywir

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website:
www.llyw.cymru.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 3

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Nick Ramsay AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 March 2021

Annwyl Mr Ramsay,

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

Pan roddais dystiolaeth i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr, dywedais y byddwn yn ysgrifennu i'r Pwyllgor cyn diwedd mis Mawrth i roi adroddiad cynnydd ar y gwaith o ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Rwy'n atodi siart wrth y llythyr hwn i egluro'r sefyllfa bresennol o ran nodi a thynnu ynghyd dangosyddion ar gyfer pob un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol arfaethedig. Bydd y Pwyllgor yn gweld bod y gwaith wedi camu yn ei flaen mewn rhai meysydd, ond bod rhagor o waith i'w wneud mewn meysydd eraill. Fel sy'n cael ei nodi yn y siart, gallai'r gwaith pellach a wneir olygu y byddwn yn ychwanegu at y dangosyddion arfaethedig hyn, neu efallai yn newid rhai ohonynt, ac felly ni ddylai'r Pwyllgor edrych ar y rhestr hon fel y rhestr derfynol.

Un o'r penderfynyddion cynnydd, yn syml, yw i ba raddau y mae'r meysydd perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn gallu rhyddhau digon o amser i gyfrannu'n effeithiol at yr ymarfer hwn. Fel yr wyf wedi dweud eisoes wrth y Pwyllgor, rydym yn deall yn iawn pa mor bwysig yw'r gwaith hwn, ond nid oes cymaint o frys amdano â'r angen i ymateb yn gyflym i'r pwysau uniongyrchol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd, ac ni allaf ganiatáu i hynny dynnu sylw staff oddi wrth y pwysau mawr hynny sy'n golygu bod angen iddynt ganolbwyntio 100% ar ymateb i'r pandemig neu faterion eraill. Rwy'n gwybod y bydd y Pwyllgor yn deall y sefyllfa.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Y thema “Priodoleddau” yw’r maes lle’r ydym wedi gallu gwneud y cynnydd mwyaf, gan ei bod yn haws tynnu ynghyd y data o dan y thema honno. Cafodd Bwrdd Llywodraeth Cymru drafodaeth ddefnyddiol ar y thema hon yn yr hydref, ac roeddwn yn falch mai’r nod oedd defnyddio’r Dangosyddion Perfformiad Allweddol fel sail i drafod perfformiad, yn hytrach na rhoi sylwadau ar y gwaith o ddatblygu’r dangosyddion eu hunain. Dyma oedd y tro cyntaf i’r Bwrdd ddefnyddio’r adnodd Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd mewn modd ymarferol. Roedd y drafodaeth hon yn llwyddiannus ac yn eang ei chwmpas, ac ar sail y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a oedd ger ei fron, fe gytunwyd mai ymgysylltu â staff a llesiant staff oedd y ddwy agwedd bwysicaf i ganolbwyntio arnynt ar hyn o bryd.

Rwy’n meddwl bod y gwaith yn mynd rhagddo’n dda, a byddwn yn sicr yn croesawu unrhyw syniadau gan y Pwyllgor ynghylch y gyfres o ddangosyddion fel y maent yn datblygu. Hefyd byddai’n ddefnyddiol cael barn y Pwyllgor ar faint o fanylion y dylem eu cynnwys yn ein cyfrifon blynyddol. Ni fyddwn yn dymuno cynnwys rhywbeth a fyddai’n anghymesur o fanwl neu’n hir o gymharu â sut yr ymdrinnir â phynciau pwysig eraill yn y cyfrifon. Hefyd, fel y dywedais wrth y Pwyllgor ym mis Rhagfyr, mae’n bosibl nad fydd yn briodol rhyddhau rhai o’r data i’r cyhoedd eu gweld.

Fy nealltwriaeth i o’r hyn a fu’n bryder cyson i’r Pwyllgor yn y maes hwn, yw bod angen imi sicrhau bod gennyf set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol trylwyr a gwrthrychol, yn hytrach na bod y Pwyllgor yn ceisio craffu ar fanylion yr wybodaeth ei hun. Diben y dangosyddion yw cael eu defnyddio fel adnodd rheoli mewnol i helpu’r Ysgrifennydd Parhaol i gael metrigau gwrthrychol i helpu i reoli Llywodraeth Cymru, ac rwy’n gobeithio y bydd y Pwyllgor yn teimlo ein bod yn cymryd camau effeithiol tuag at gyflawni’r nod hwn, a’n bod yn dechrau defnyddio’r adnodd i wneud gwahaniaeth.

Byddwn yn croesawu’n fawr cael barn y Pwyllgor ar y gwaith hyd yn hyn.

Yn gywir,

Shan Morgan

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

| | Thema | Statws thema cyfredol | **Dangosyddion arfaethedig**<br><br>***Sylwer, gall mesurau newid mewn ymateb i strategaethau a datblygiadau sefydliadol*** |
|---|---|---|---|
| **Swyddogaethau Gweithredol Craidd** | **Gwneud Polisïau** | Wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd | Oedi wrth ddatblygu'r thema oherwydd COVID-19. Ar hyn o bryd, ystyrir cynnwys mesurau yn ymwneud â faint o amser staff a dreulir ar bolisiau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â pholisi, cyfran y staff sy'n gweithio ym maes polisi a'r broses Cyngor Gweinidogol |
| | **Rheoli Cyllidol ac Ariannol** | Wedi'i gwblhau'n rhannol (nid yw'r data ar gael eto ar gyfer pob mesur) | Gwahaniaeth £ rhwng y rhagolwg a'r gwahaniaeth alldro/canran [neu wall canrannol] rhwng y rhagolwg a'r alldro (gan gynnwys ffactorau dadgyfansoddiad) |
| | | | Sgôr / safle ym Mynegai'r Gyllideb Agored (mesur tryloywder y gyllideb) |
| | | | Canran yr argymhellion yn ôl categori a nodwyd yn yr adolygiadau Gateway a gynhaliwyd ar gyfer rhaglenni/prosiectau mawr |
| | **Deddfwriaeth** | Wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd | Ar hyn o bryd, ystyrir cynnwys mesurau sy'n ymwneud â chyflawni'r Rhaglen Ddeddfwriaethol a hygyrchedd a thryloywder y gyfraith |
| | **Cydnerthedd, Cynlluniau ac Ymateb wrth Gefn** | Wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd | Oedi wrth ddatblygu'r thema oherwydd COVID-19. Ar hyn o bryd, ystyrir cynnwys mesurau yn ymwneud ag EECW a chanlyniadau adolygiadau ôl-weithredol ac ymarferion gwersi a ddysgwyd |
| **logaethau Cefnogi Cenhadaeth** | **Caffael** | Bron yn gyflawn (angen ystyried ffynonellau data ymhellach) | Arbedion caffael fel % o gyfanswm y gwariant dylanwadol [arbedion] |
| | | | Cyfraniad at wariant gwerth cymdeithasol fel % o gyfanswm y gwariant dylanwadol [gwerth cymdeithasol] |
| | | | Canran cyfanswm y gwariant dylanwadol a enillwyd yn uniongyrchol gan fusnesau yng Nghymru gan gynnwys busnesau bach a chanolig? [gwerth cymdeithasol] |
| | | | Canran cyfanswm y gwariant dylanwadol gyda chyflenwyr heb gontract ffurfiol/Gwariant amrywio fel % o gyfanswm y gwariant dylanwadol [cydymffurfio] |
| | **Adnoddau Dynol a Rheoli'r Gweithlu** | Bron yn gyflawn (angen ystyried ffynonellau data ymhellach) | Hyd cyfartalog yr amser ar gyfer recriwtio o'r dechrau i'r diwedd |
| | | | Canfyddiad o ymrwymiad sefydliadol i symud adnoddau i feysydd sy'n flaenoriaeth i Weinidogion |
| | | | Cydymffurfiaeth â Chytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau Adnoddau Dynol gan y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol |
| | **TGCh a Digidol i Swyddogion** | Wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd | Cynhelir adolygiad o fetrigau TGCh ar hyn o bryd, a fydd yn nodi mesurau ar gyfer y fframwaith. Ystyriaeth cynnwys mesurau sy'n ymwneud â staff yn gallu defnyddio'r TGCh sydd ei hangen i gefnogi darpariaeth effeithiol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth TGCh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Swydd | **Cyllid Mewnol** | Bron yn gyflawn (angen ystyried ffynonellau data ymhellach) | Cyfran y taliadau prydlon a wnaed o fewn y targedau 5, 10 a 30 diwrnod<br>Cywirdedd prosesau rheoli arian parod (rhagweld llif arian): Perfformiad Llywodraeth Cymru yn erbyn amrywiadau a osodwyd gan y Trysorlys<br>Cywirdeb proffiliau'r Gyllideb |
| | **Rheoli Ystad** | Wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd | Oedi wrth ddatblygu thema oherwydd COVID-19. Yn cael ei adolygu ar hyn o bryd er mwyn cyd-fynd â Strategaeth Gweithle'r Dyfodol. Ystyrir cynnwys mesurau sy'n ymwneud â defnydd staff o'r gweithle, a'u bodlonrwydd â'r gweithle, wrth gefnogi darpariaeth effeithiol |
| Swyddogaethau Cyflawni Gwasanaethau | **Grantiau** | Wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd | Ar hyn o bryd, ystyrir cynnwys mesurau yn ymwneud â nifer y Cynlluniau Grantiau, nifer y cynlluniau a gyflwynir i'r Panel Sicrhau Grantiau ac argymhellion a wnaed mewn perthynas â gwneud gwelliannau i Broses y Cynllun Grantiau a nodwyd gan y panel ac archwiliadau neu adolygiadau eraill |
| | **Gwasanaethau Digidol i Ddinasyddion** | Wedi'i gwblhau | Nifer y bobl sy'n manteisio ar wasanaethau digidol i ddinasyddion / canran y boblogaeth darged<br>Ffigurau dilynwyr cymdeithasol ar y prif gyfrifon Twitter a Facebook<br>Nifer yr ymwelwyr i Wefan Llywodraeth Cymru |
| | **Gweinyddu trethi** | | Cyfeirio at Awdurdod Cyllid Cymru |

| | **Thema** | **Statws thema cyfredol** | **Dangosyddion arfaethedig**<br><br>***Sylwer, gall mesurau newid mewn ymateb i strategaethau a datblygiadau sefydliadol*** |
|---|---|---|---|
| | Ffyrdd o Weithio a Gwerthoedd Craidd | Adroddwyd i'r Bwrdd yn 2020 | Mynegai 'Pum ffordd o weithio' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>Ymwybyddiaeth o sut i fynegi pryder o dan God y Gwasanaeth Sifil, a'r hyder ynddo<br>Achosion o ymddygiad digroeso |
| | Bod yn Agored | Adroddwyd i'r Bwrdd yn 2020 | Barn staff a dinasyddion ar reoleidd-dra ac ansawdd ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid a dinasyddion<br>Cyfran y ceisiadau am wybodaeth a gwblhawyd ar amser a lefel yr wybodaeth a ddarparwyd<br>Nifer y setiau data agored sydd wedi dod ar gael dros y 12 mis blaenorol [ddim ar gael eto] |
| | Galluoedd | Adroddwyd i'r Bwrdd yn 2020 | Dyrannu staff i weithgareddau a phroffesiynau craidd<br>Mynediad at ddysg a chyfleoedd datblygu<br>Hyder mewn Arweinwyr<br>Asesiad o aeddfedrwydd y gallu sefydliadol [heb ei gynnal eto] |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Priodoleddaı | Cydraddoldeb a Chynwysoldeb | Adroddwyd i'r Bwrdd yn 2020 | Cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol yn Llywodraeth Cymru |
| | | | Lefelau ymgysylltu grwpiau lleiafrifol |
| | | | Canfyddiad o barch sefydliadol ar gyfer gwahaniaethau unigol |
| | Ymgysylltiad staff | Adroddwyd i'r Bwrdd yn 2020 | Mynegai Ymgysylltu â Chyflogeion |
| | | | Cofnod o'r bwriad i aros |
| | | | Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd (cyfartaledd treigl, salwch tymor byr, addaswyd ar gyfer FTE) |
| | Y Gymraeg | Adroddwyd i'r Bwrdd yn 2020 | Canfyddiad o ymrwymiad y sefydliad i'r Gymraeg |
| | | | Cyfran y staff sy'n defnyddio'r Gymraeg i wneud gwaith |
| | | | Sgiliau yn y Gymraeg<br><br>Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi'r Gymraeg |
| | Arloesedd | Adroddwyd i'r Bwrdd yn 2020 | Canfyddiadau o gefnogaeth ar gyfer arloesedd unigol |
| | | | Canfyddiadau o anogaeth ar gyfer Arloesedd gan Dîm |
| | | | Asesiad o Aeddfedrwydd Digidol |

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon